Adroddiad ar

# Ysgol Glan Morfa

Lewis Road
Y Sblot
Caerdydd
CF24 5EB

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Glan Morfa

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Glan Morfa |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | * |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 246 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 171 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 39 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 37.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 5.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 18.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 02/01/2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Ionawr 2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Glan Morfa yn darparu amgylchedd ofalgar a chynhwysol, ac mae'n chwarae rhan ganolog yn ei chymuned leol. Mae arweinwyr yn gosod safonau uchel ac wedi sefydlu gweledigaeth gynhwysfawr sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnydd a lles disgyblion. Maent yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned leol i ddarparu profiadau ysgogol a diddorol i'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn caffael barn rhieni ac yn ymateb yn rhagweithiol ac amserol i'r canfyddiadau. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn treiddio'n werthfawr ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r pwyslais ar ddatblygiad personol, cymdeithasol a moesol disgyblion. Drwy amrywiaeth o weithgareddau a chwricwlwm yr ysgol, mae disgyblion yn cael eu hannog i fyfyrio ar faterion moesegol a chymdeithasol, gan ddangos parch at amrywiaeth ddiwylliannol ac ystod o gredoau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus tuag at eraill. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu ac yn ymgysylltu'n llawn ag ystod eang o dasgau. Mae'r staff yn sicrhau amgylchedd ddysgu gyfoethog ac mae'r defnydd o'r mannau dysgu awyr agored yn arbennig o effeithiol wrth gefnogi dysgu ymarferol priodol.

Mae gan yr ysgol nifer o bwyllgorau disgyblion sydd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau arweinyddiaeth a chyfleoedd i fynegi barn ar faterion sy'n bwysig iddynt. Trwy weithio ar brosiectau amrywiol, fel eu gwaith ar greu amgylchedd gynhwysol a chroesawgar i geiswyr lloches, mae disgyblion yn cyfrannu'n uniongyrchol at ethos a chyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn chwarae rhan weithgar wrth lunio polisïau a chynlluniau, gan gynnwys hybu lles, cynhwysiant a pharch ar draws cymuned yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n gytbwys ar wybodaeth a medrau blaenorol disgyblion. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhif, llythrennedd, digidol a chreadigol. Er hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cael anhawster wrth gymhwyso eu medrau Cymraeg yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Mae cynlluniau eisoes ar waith i fynd i'r afael â hyn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Datblygu ymhellach gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

# Prif arfarniad

Mae Ysgol Glan Morfa yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol sy'n rhan greiddiol o'i chymuned leol. Mae arweinwyr yr ysgol yn gosod a chyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff a'r disgyblion. Maent yn cydweithio'n hynod effeithiol i gynnal diwylliant ac ethos sydd â ffocws clir ar gynnydd a lles pob disgybl. Mae hyn yn meithrin a datblygu disgyblion sy'n arddangos ymagweddau cadarnhaol at eu hunain a'u cyfoedion. Mae'r rhieni'n ymfalchïo bod eu plant yn mynychu'r ysgol gartrefol hon ac yn gwerthfawrogi'r ystod o brofiadau ynghyd â'r gofal a'r lles arbennig sy'n cael eu darparu gan staff.

Cryfder nodedig o'r ysgol yw'r pwyslais gwerthfawr a roddir ar gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion a chodi eu hymwybyddiaeth foesol a diwylliannol. Drwy ddathliadau amrywiol a chwricwlwm Meysydd Morfa, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig gan ddangos parch tuag at hawliau eraill o fewn cymdeithas. Trwy hyn, mae ethos cynhwysol Ysgol Glan Morfa yn arddel eu harwyddair, 'Gyda'n gilydd, Fe lwyddwn', yn hynod effeithiol.

### Ciplun: Hyrwyddo aml-ddiwylliant, amrywiaeth a rhinweddau parch ac empathi

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r modd maent yn hyrwyddo parch a goddefgarwch at eraill, a gwerthfawrogiad o wahanol ddiwylliannau a chredoau. Mae hyn wrth wraidd gwaith yr ysgol i ddatblygu cymeriad eu disgyblion. Mae ystod eang o weithgareddau sydd yn dathlu natur aml-ddiwylliannol ac amrywiaeth yr ysgol; er enghraifft, maent yn trefnu gweithdai aml-ddiwylliannol i rieni ac yn cydweithio'n agos â chanolfan ffoaduriaid leol. Mae athrawon yn paratoi'r disgyblion i fyw ac i weithio mewn cymdeithas aml-ddiwylliannol yn effeithiol.

Mae'r holl staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg disgyblion sy'n eu harwain i ddangos parch a chwrteisi priodol tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cymhelliant cryf, diddordeb a balchder yn eu dysgu. Yn ystod gweithgareddau dysgu, maent yn ymgyfarwyddo'n gyflym â'r tasgau ac yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig. Mae'r cymorthyddion yn cymryd rhan weithredol yn y tasgau gan herio a holi'r disgyblion yn fedrus. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r amgylchedd dysgu i gefnogi ac ysgogi disgyblion. Er enghraifft, ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio'r ardal ddysgu allanol a'r goedlan yn hynod effeithiol i gynnig profiadau dysgu cyfoethog. Drwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau ymarferol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm sy'n briodol o eang sy'n galluogi disgyblion i ddyfnhau eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn

sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth o hanes a diwylliant eu hardal leol yng Nglan Morfa.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth flaenorol disgyblion yn systematig. Mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau digidol, creadigol, iaith a mathemateg disgyblion. O ganlyniad, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n  aeddfed ar gyfraniadau ei gilydd ac yn barchus mewn amryw gyd-destun. Erbyn brig yr ysgol, maent yn trafod pynciau o fewn eu profiad yn briodol, er enghraifft wrth gynnal trafodaeth ar addysg Gymraeg adeg cyfnod y Welsh Not. Maent yn darllen yn hyderus ac yn defnyddio'u medrau'n grefftus i gasglu gwybodaeth, dod i gasgliad ac i chwilio am wybodaeth o destunau amrywiol i gefnogi eu safbwyntiau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos hoffter at ddarllen gan drafod eu hoff awduron Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cael anhawster wrth gymhwyso eu medrau Cymraeg yn annibynnol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ysgol wedi dechrau gweithredu cynlluniau er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau Cymraeg ond nid yw hyn wedi cael digon o amser i effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd hyd yma.

Yn ystod gweithgareddau dysgu, mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth effeithiol i gefnogi cynnydd disgyblion a sicrhau eu dealltwriaeth. Maent yn rhannu adborth yn amserol sy'n galluogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda. Yn y rhan fwyaf o sesiynau dysgu, mae'r adborth yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol ac mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddrafftio a gwella eu gwaith ysgrifenedig. Mae athrawon yn defnyddio arsylwadau o'r hyn mae disgyblion yn ei gyflawni yn gyson, a deilliannau asesiadau i gynllunio gweithgareddau. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cynnig her i ddisgyblion er mwyn eu hymestyn i gyflawni'n dda. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhif yn ddigon heriol.

Ar draws yr ysgol, mae ymdeimlad cryf o waith tîm. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y mae staff yn cydweithio i adnabod anghenion disgyblion unigol. Maent yn adnabod y disgyblion yn hynod o dda ac yn darparu cymorth amserol a phriodol sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar eu dysgu a'u lles. Mae'r trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn flaengar. Mae staff yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr i gynorthwyo'r disgyblion ag ADY, gan gynnwys i hybu lles a rheoli emosiynau. Maent yn cynnwys disgyblion, rhieni a barn asiantaethau allanol yn effeithiol i gynllunio'r gefnogaeth a gwerthuso'i heffaith. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY a disgyblion y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt, yn gwneud cynnydd llwyddiannus o'u mannau cychwyn.

Mae’r pennaeth yn blaenoriaethu defnydd grantiau fel y grant datblygu disgyblion yn flaengar i sicrhau bod lefelau staffio addas sy’n canolbwyntio ar anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio adnoddau yn fedrus i gynnig darpariaeth werthfawr Dosbarth Lles, Dosbarth Maeth a’r Clwb Cwtsh amser cinio i gefnogi lles ac anghenion dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at ethos cynhwysol yr ysgol ac yn cyfrannu at gynnydd medrau a lles y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn hwyluso cyfleoedd hynod o fuddiol i ddisgyblion ddylanwadu’n strategol ar arweinyddiaeth yr ysgol.

### Ciplun: Datblygu medrau arwain disgyblion drwy waith y pwyllgorau ysgol

Mae staff yn darparu cyfleoedd hynod o fuddiol i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain ac i ddatblygu medrau sydd yn effeithio’n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn rhan o ystod o bwyllgorau disgyblion sydd yn cyfrannu at y senedd ysgol. Maent yn caffael barn eraill ac yn arwain ar brosiectau cyffrous sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ethos a diwylliant yr ysgol. Er enghraifft, trwy weithio ar brosiectau amrywiol, fel eu gwaith ar greu amgylchedd gynhwysol a chroesawgar i geiswyr lloches, mae disgyblion yn cyfrannu’n uniongyrchol at ethos a chyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso’r ysgol yn gadarn. Mae gan y pennaeth a’r staff drefniadau trylwyr ar gyfer monitro a gwella’r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Maent yn casglu gwybodaeth o ystod dda o ffynonellau amrywiol ac yn defnyddio’r wybodaeth yn llwyddiannus i nodi’r meysydd i’w gwella. Mae’r llywodraethwyr yn gweithredu’n effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau’r ysgol ar gynnydd a lles disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae’r berthynas gynhyrchiol sy’n bodoli rhwng yr ysgol, y gymuned a’r rheini yn gryfder amlwg. Mae’r staff yn gweithio’n ddiwyd i sicrhau bod rhieni’n derbyn gwybodaeth rheolaidd am gynnydd eu plant. Maent yn caffael barn rhieni yn gyson, gan ddefnyddio’r wybodaeth yn bwrpasol i wneud gwelliannau i’r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn gweithredu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu, datblygu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn rhannu syniadau a mabwysiadu arferion effeithiol ar y cyd yn llwyddiannus ac mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad dysgu. Drwy hyn, mae’r staff yn myfyrio ar ac yn ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar les, medrau a chynnydd disgyblion yn effeithiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025